

AcademiWales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Academi Wales Adroddiad Blynyddol 2014 - 15

Cynnwys

Rhagair	3
Cyflwyniad	4
Ynghylch yr Adroddiad Hwn.....	5
Gwelliant Parhaus a Newid.....	6
Arweinyddiaeth a Datblygiad Sefydliadol.....	10
Datblygu Arweinyddiaeth yn y GIG	15
Talent ac Olyniaeth	19
Tîm Busnes.....	23
Data Mynychwyr a Chyswllt.....	25

Rhagair



Dechreuodd Academi Wales y flwyddyn ddiwethaf hon ar dir ansicr, yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd y naratif ynghylch Academi Wales a'i waith gyda gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn dda, ond roedd nifer o gwestiynau allweddol na chafwyd atebion iddynt. Beth fyddai dyfodol Academi Wales? Pa fath o sefydliad oedd angen inni fod? Sut byddai ein blaenoriaethau o ran darparu yn newid? Sut byddai angen i'n perthynas gyda gwasanaethau cyhoeddus aeddfedu?

Gwyddom yn well na'r rhan fwyaf pa fath o effaith y gall ansicrwydd o'r fath ei chael ar forâl y tîm, effeithiolrwydd y darparu a'r perfformiad o ran ansawdd, ond fel bob amser fe wynebodd Academi Wales yr heriau hyn yn hyderus, gydag angerdd, ymdeimlad absoliwt o'n pwrpas a chefnogaeth lawn y naill i'r llall.

Er gwaethaf yr holl ansicrwydd strategol a sefydliadol hwn, daliodd tîm Academi Wales ati i gyflawni ei ddiben, sef helpu pobl i dyfu drwy ddysgu, gan sicrhau canlyniadau oedd y tu hwnt i ddisgwyliadau. Mae dros 10,800 o weision sifil wedi cymryd rhan mewn dros 11,000 o ddyddiau hyfforddi ar draws portffolio o raglenni ac ymyriadau sy'n amrywio o reoli newid ar raddfa fawr, datblygu tîm gweithredol, datblygu bwrdd, profiadau arwain clinigol, cynlluniau hyfforddi i raddedigion a chyfleoedd dysgu rhyngwladol.

Yn ystod y flwyddyn mae Bwrdd Ymgynghorol Academi Wales wedi arwain, siapio a chefnogi ymdrechion strategol a gweithredol yr holl dîm, yn ogystal â gweithredu fel llysgenhadon i Academi Wales a'i waith.

Rydym yn falch ein bod, yn Academi Wales, yn byw ar sail ein gwerthoedd, gan ganolbwyntio ar gydweithredu, ansawdd, cynaliadwyedd a gwelliant, a hynny oll mewn awyrgylch cadarn o waith tîm sy'n wydn, yn ddeallus yn emosiynol ac yn llawn ymddiriedaeth. Dyma gonglfeini llwyddiant Academi Wales.

Yn Hydref 2014 daeth y cyfeiriad y mae angen i Academi Wales symud iddo yn llawer mwy eglur pan gawsom ein symud i bortffolio y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn ei araith yn y Sefydliad Materion Cymreig ar 20 Ionawr eleni, dywedodd y Gweinidog fod Academi Wales 'wedi bod yn gwneud gwaith da o dan y radar a'i bod yn bryd bellach codi ei broffil'.

Rydym yn cynnig yr Adroddiad Blynyddol hwn i chi fel naratif y flwyddyn, a chyfle i ddysgu mwy am waith Academi Wales, a hoffwn orffen y rhagair hwn drwy ddiolch o galon i'r deg mil ohonoch sydd wedi gweithio gyda ni eleni. Gobeithio eich bod chi wedi cael cymaint o fwynhad â ni! Yn bwysicaf oll, diolch i dîm Academi Wales am eich gwaith caled a'ch penderfyniad – rydych yn enghraifft wirioneddol o grŵp o bobl ymroddedig, talentog a brwd.

Edrychaf ymlaen at 2015-16 a'r hyn a ddaw yn ystod y flwyddyn.

Cofion caredig



Jo Carruthers

Cyfarwyddwr, Academi Wales

Cyflwyniad

AcademiWales



Academi Wales yw'r ganolfan ar gyfer rhagoriaeth mewn arweinyddiaeth a rheolaeth yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Fe'i sefydlwyd ym mis Medi 2012, a bellach mae'n rhan o bortffolio'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae Academi Wales yn ceisio creu dyfodol i Gymru lle

mae arweinyddiaeth ein gwasanaethau cyhoeddus yn llawn gweledigaeth, yn gydweithredol, yn flaengar ac yn llwyddiannus o ran sbarduno gwelliant ym mywydau pobl sy'n byw yng Nghymru. Mae Academi Wales yn darparu amgylchedd lle gall arweinwyr weithio gyda'i gilydd i ddatblygu rhagor ar feddwl strategol, galluedd arwain systemau a chanfod atebion addasadol i faterion ar draws y sector a materion cymunedol.

Mae ymchwil yn awgrymu y bydd angen i arweinwyr y dyfodol fod yn addasadol, gallu meddwl a chynllunio ar lefel systemig a bod yn gadarn a brwd yn bersonol. Bydd angen i'n harweinwyr fod yn optimistaidd yn wyneb newid ac yn gwbl realistig ynghylch y raddfa a'r dewrder sy'n angenrheidiol er mwyn llwyddo.

Mae Academi Wales yn parhau i helpu i ddefnyddio talent arweinwyr ar draws ystod eang o feysydd proffesiynol a disgyblaethau ac mae'n falch o weithio ar draws pob sector yng Nghymru.

Dan arweiniad Bwrdd Ymgynghorol a'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, mae Academi Wales yn gweithredu yn y gofod rhwng blaenoriaethau cenedlaethol ac angen lleol. Gydag egwyddorion cydweithredu a phartneriaeth yn sail i'r portffolio o waith, mae Academi Wales yn gosod y safonau ar gyfer arweinyddiaeth o fewn y sector cyhoeddus ac yn galluogi pobl i weithio gyda'r rhain i ddarparu gwasanaethau sy'n gwneud gwir wahaniaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o weithgarwch Academi Wales ac yn adrodd stori blwyddyn brysur, heriol ac uchel ei safon.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr holl raglenni a chynnyrch ar wefan Academi Wales:

www.academiwales.org.uk

Ynghylch yr Adroddiad Hwn

Gellir rhannu'r meysydd allweddol a drafodir yn yr adroddiad hwn i'r categorïau canlynol:

- **Gwelliant Parhaus a Newid**

Mae'r tîm yn gweithio i sefydlu 'gwelliant parhaus' fel un o'r gwerthoedd craidd mewn arweinwyr ac ymarferwyr a fydd yn gallu trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Ein nod yw cynyddu'r capasiti a'r gallu i sicrhau gwelliant parhaus o fewn gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Er mwyn gwireddu hyn rydym yn cynyddu ymwybyddiaeth, yn cefnogi rhwydweithiau, yn datblygu sgiliau ac yn darparu'r gofod i arweinwyr dyfu.

- **Arweinyddiaeth a Datblygiad Sefydliadol**

Mae'r tîm yn cynllunio a darparu ystod o raglenni arweinyddiaeth, rheolaeth a datblygiad sefydliadol i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni, gweithdai, dosbarthiadau meistr, ymyriadau arbennig, prosiectau a gwaith gyda grwpiau arweinyddiaeth proffesiynol a chymunedau.

- **Datblygu Arweinyddiaeth GIG Cymru**

Mae'r tîm yn cefnogi'r gwaith o gynllunio a darparu ystod o raglenni arweinyddiaeth, rheolaeth a datblygu sefydliadol, sy'n cyd-fynd ag agenda gweithlu a gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru.

- **Talent ac Olyniaeth**

Mae'r tîm yn darparu ystod eang o gyfleoedd unigryw i adolygu ac adnewyddu sgiliau presennol er mwyn cefnogi datblygiad gweithgareddau rheoli talentau ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

- **Tîm Busnes**

Mae'r tîm yn cefnogi Academi Wales i ddarparu cynnyrch a gwasanaethau cost-effeithiol sy'n cael eu rhedeg yn dda. Mae ein gwaith yn cynnwys cyfathrebu ac ymwneud â chleientiaid a rhanddeiliaid, caffael nwyddau a gwasanaethau, prosesu ariannol a monitro cyllidebau. Rydym hefyd yn llywio'r holl weithgaredd busnes fel ei fod yn cyd-fynd â safonau a gofynion Llywodraeth Cymru.

- **Data Mynychwyr a Chyswllt**

Cysylltu â ni

Rydym ni yn Academi Wales bob amser yn awyddus i glywed gan ein partneriaid, rhanddeiliaid a chwsmeriaid. Am gyngor, neu i drafod beth gall Academi Wales ei ddarparu i chi, cysylltwch ag:

academiwales@wales.gsi.gov.uk

neu ffoniwch **029 2082 6687**

neu anfonwch neges Twitter at [@academiwales](https://twitter.com/academiwales)

Gwelliant Parhaus a Newid



Enillwyr gwobr yng Nghynhadledd Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan (AWCIC)

1. Diben strategol

Mae'r tîm yn gweithio i sefydlu 'gwelliant parhaus' fel un o'r gwerthoedd craidd mewn arweinwyr ac ymarferwyr a fydd yn gallu trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Ein nod yw cynyddu'r capasiti a'r gallu i sicrhau gwelliant parhaus o fewn gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Er mwyn gwireddu hyn rydym yn cynyddu ymwybyddiaeth, yn cefnogi rhwydweithiau, yn datblygu sgiliau ac yn darparu'r gofod i arweinwyr dyfu.

2. Trosolwg

Rydym wedi dal ati i ledaenu a gwella ein cyswllt â chwsmeriaid drwy:

- ein hystod o ddigwyddiadau hyfforddi,
- ymyriadau 'gwella effeithlonrwydd', gan gynnwys gwaith yn:
 - Cyngor Sir Wrecsam
 - Cyngor Sir RhCT
 - Un Llais Cymru
 - Yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub
 - Mentrau Cymunedau yn Gyntaf
- meithrin cysylltiadau a chyd-redeg â mentrau rhwydweithio gwelliant parhaus sydd er budd y ddwy ochr (rhai i Gymru gyfan a rhai ledled y DU).

"Cyfle gwych i rwydweithio ac fe wnes lawer o gysylltiadau newydd. Daliwch ati â'r gwaith da. Mae arnom angen y mathau hyn o weithgareddau os ydym am ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus."
Cynhadledd Flynyddol a Seremoni Wobrwy Gwelliant Parhaus

Cynhadledd Flynyddol Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan (AWCIC)

Mae'r gynhadledd bellach wedi ennill ei phlwyf fel digwyddiad gwelliant parhaus. Bu inni gynnal y trydydd digwyddiad yn 2014-15, a ddenodd record o 247 o fynychwyr i stadiwm SWALEC, Caerdydd.

Rhannodd ystod eang o sefydliadau eu 'teithiau gwelliant parhaus' gyda'r mynychwyr, gan gynnwys y Swyddfa Eiddo Deallusol, y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Bathdy Brenhinol.

"Mae'r ffaith fod AWCIC yn bodoli, hyd yn oed, yn arwydd cadarnhaol fod Cymru yn dal ati i chwilio am syniadau ac arferion newydd, nad oes arnom ofn meddwl yn wahanol a bod dal ati i feddwl yn wahanol wrth graidd yr hyn yr ydym yn ei wneud" Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan

Gwobrau Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan (AWCIC)

Fe wnaethom gynnal seremoni wobrwyo gyntaf Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan (AWCIC) yn y gynhadledd. Sefydlwyd y seremoni wobrwyo er mwyn cydnabod yn ffurfiol gyflawniadau lu y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a'u dathlu.

Dyma enillwyr pob categori:

- 'Arloesi – Gwneud Pethau'n Wahanol' – Gwasanaethau Plant Sir Fynwy
- 'Arwain Newid yn Rhagorol' – Pwyllgor Materion Cenedlaethol, Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru
- Cydweithredu a Gweithio ar draws Ffiniau – Canolfan Gofal Iechyd a Lles Conwy
- 'Darparu Canlyniadau – Gwneud Pethau'n Well' – Gwasanaethau ar y Cyd y Weinyddiaeth Amddiffyn

Digwyddiad Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau (RBA)

Denodd y digwyddiad RBA yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, yng nghwmni'r arbenigwr sy'n enwog ledled y byd, Mark Friedman, 250 o fynychwyr. Mae RBA yn ddull 'synnwyr cyffredin' sy'n dod yn fwyfwy poblogaidd ac fe'i defnyddiwyd yn fyd-eang i wella ansawdd bywyd mewn cymunedau, dinasoedd a gwledydd – popeth o les plant i greu amgylcheddau cynaliadwy.

Digwyddiadau 'Dysgu a Rhannu'

Parhaodd y digwyddiadau poblogaidd hyn yn ystod y flwyddyn, a rhannwyd profiadau drwy weithdai ac ymweliadau:

- Y Swyddfa Gartref
- Y Swyddfa Eiddo Deallusol
- DVLA
- Carchar Caerdydd
- Y Bathdy Brenhinol



Cynhadledd AWCIC 2014

3. Partneriaethau a rhwydweithiau

Rydym wedi datblygu cysylltiadau strategol sydd er budd y ddwy ochr gyda sefydliadau ledled y DU.

SOLACE (Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwchreolwyr Awdurdodau Lleol)

Mae Cadeirydd SOLACE wedi ymrwymo i godi ymwybyddiaeth o waith AWCIC ymhlith ei chyd-weithwyr a hyrwyddo digwyddiadau lledaenu 'Gwelliant Parhaus' a gynhelir yn y dyfodol.

ICiPS (Y Sefydliad Gwelliant Parhaus mewn Gwasanaethau Cyhoeddus)

Fe wnaethom barhau i ymwneud ag esblygiad ICiPs. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth am sut yr ydym wedi sefydlu model Cymru (AWCIC) a chyswllt parhaus ar Fwrdd y Cyfarwyddwyr.

Rhwydweithiau Gwelliant Parhaus Lleol y Gwasanaeth Sifil

Fe wnaethom gyd-fynd â'r cynllun gwelliant parhaus ar draws y llywodraeth i gefnogi Agenda Diwygio'r Gwasanaeth Sifil.

Grŵp Rhannu Syniadau y Sector Cyhoeddus

Fe wnaethom greu cysylltiad â Grŵp Rhannu Syniadau y Sector Cyhoeddus. Maent yn darparu rhwydwaith cefnogi ar gyfer y rhai sy'n gweithio ar gynlluniau syniadau staff ac arloesi gan staff ar draws y sector cyhoeddus, ac yn darparu ffordd o rannu syniadau da a'r arferion gorau.

4. Data mynychwyr

Dyma rywfaint o'r data allweddol sy'n ymwneud â'n mentrau gwelliant parhaus.

Rhestr ddosbarthu i ledaenu gwybodaeth, arferion gorau a digwyddiadau yn ymwneud â gwelliant parhaus: 198 o enwau cyswllt (o 190 yn 2013-14)

Sianel Ddysgu: defnyddwyr grŵp gwelliant parhaus: 302 (o 101 yn 2013-14)


Aelodau grŵp AWCIC Linked-in: 191 (o 129 yn 2013-14)

"Mae'r adborth yr wyf wedi'i gael gan y myfyrwyr wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol; dywedodd un fenyw sydd yn ganolog i "newid" sylweddol o fewn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus a chanddi wybodaeth sylweddol am Fethodoleg Ddarbodus ei bod wedi dysgu llawer iawn o'r hyfforddiant. Yr hyn yr oeddwn yn arbennig o falch ohono oedd gweld swyddogion heddlu gweithredol yn datblygu ffyrdd newydd o feddwl mewn modd trefnus ac yn seiliedig ar dystiolaeth."

Hyfforddiant Heddlu De Cymru



Mynychwyr Gwelliant Parhaus fesul Sector



Learn about [#ContinuousImprovement](#) in [#Wales](#). Meet Welsh [#PublicService](#) improvers @ Improvement Conference. More here ow.ly/D2iM5

RETWEETS 12 FAVORITES 5

View Tweet activity

Arweinyddiaeth a Datblygiad Sefydliadol

1. Diben strategol

Mae'r tîm yn cynllunio a darparu ystod o raglenni arweinyddiaeth, rheolaeth a datblygiad sefydliadol i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni, gweithdai, dosbarthiadau meistr, ymyriadau arbennig, prosiectau a gwaith gyda grwpiau arweinyddiaeth proffesiynol a chymunedau.

2. Trosolwg

Yn 2014-15 fe wnaethom gynllunio, datblygu, darparu a gwerthuso rhaglenni ar draws pedwar maes allweddol

- ein rhaglen reolaidd sydd wedi'i threfnu
- ein rhaglen ymatebol bwrpasol
- cyfres o ddosbarthiadau meistr ar bynciau penodol, a
- grwpiau arwain proffesiynol
- cyfraniadau cynhadledd.

Fe wnaethom hefyd ddarparu ymyriadau wedi'u teilwra ar gyfer amrywiaeth o sefydliadau, creu partneriaethau ar draws ystod o sectorau a gweithio'n agos gyda'r gymuned academiaidd.

3. Rhaglenni, cyrsiau a digwyddiadau

Roedd ein '**rhaglen reolaidd**' (ffigwr 2) yn cynnwys rhaglenni sy'n eiddo i Academi Wales a rhai a gomisiynwyd gan ddarparwyr allanol. Roedd y rhain yn agored i bawb sy'n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru :

- 7 o Arferion Pobl Hynod o Effeithiol
- Defnyddio Seicoleg Gadarnhaol
- Creu Perthnasau Effeithiol
- Ysgogiad
- Deallusrwydd Emosiynol
- Rhaglen Archwilio Hunanddatblygu
- Archwilio a Cherdded
- Rheoli Newid yn Effeithiol
- Ymwybyddiaeth Ofalgar
- Rhaglennu Niwroieithyddol (NLP)
- Springboard
- Deall Gwydnwch Meddyliol

Bu i 1,026 o bobl fynychu'r rhaglenni hyn yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015.

Drwy ein rhaglen '**bwrpasol**' (ffigwr 3), fe wnaethom alluogi gallu arwain a datblygiad sefydliadol drwy fonitro ac ymateb i geisiadau gan unigolion a sefydliadau. Yn ogystal, fe aethom ati i weithio gyda sectorau yn y gwasanaethau cyhoeddus neu sefydliadau oedd yn cael anawsterau neu'n wynebu lefelau uchel o newid .

- Cynigiwyd 47 o raglenni/ymyriadau (yn uniongyrchol gan Academi Wales ac wedi'u comisiynu)
- Bu i 6,644 o bobl eu mynychu yn ystod y cyfnod Ebrill 2014 i Fawrth 2015
- Darparwyd 191 o ymyriadau

Roedd pob un o'n '**cyfres o ddosbarthiadau meistr**' yn archwilio thema berthnasol oedd yn ystyried anghenion ymarferwyr ac yn archwilio syniadau newydd gan y gymuned ymchwil academiaidd. Dyma'r themâu

a gafodd eu cwmpasu:

- Gwleidyddiaeth Cymru
- Llywodraeth Ddatganoledig
- Sgiliau i Gyfarwyddwyr Anweithredol
- Arloesi
- Llywodraethu: Bwystfilod a Thrôls
- Polisiâu a Chyfreithiau Cymreig

Roedd ein **'cyfraniadau cynhadledd'** yn cynnwys ystod o weithdai a sesiynau arweinyddiaeth a datblygiad sefydliadol a chynrychiolaeth mewn cynadleddau cenedlaethol a rhai ar lefel y DU. Dyma rai enghreifftiau:

- HMPA – gweithdy datblygiad personol ar werthoedd a ddarparwyd i ymarferwyr ieuchyd yng Nghymru
- Gwneud ein ffordd: cynhadledd ar Arweinyddiaeth yn y Celfyddydau
- Cynhadledd Arweinyddiaeth Glinigol – gweithdy datblygiad personol ar wydnwch meddyliol a gweithdy ar werthoedd
- Cynhadledd Coastal Housing Cymru – Gweithdai Seicoleg Gadarnhaol Gymwysedig
- Cynadleddau Nyrsio Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg – Gweithdai cymhelliant a gweithdai ysgogiad
- Cynhadledd Cartrefi RhCT – Darparwyd sesiwn Defnyddio Seicoleg Gadarnhaol i 500 o bobl



4. Partneriaethau a rhwydweithiau

Fe wnaethom weithio gyda sefydliadau i ddarparu cyngor ac arweiniad a darparu rhaglenni oedd yn cael effaith strategol a sefydliadol. Drwy gyfrwng yr ymyriadau hyn, rydym yn mynd yn bellach na'r sesiynau hyfforddi 'intro' yn ein rhaglen bwrpasol ac yn cynllunio pecyn sydd wedi'i deilwra i gwrdd â'r anghenion hyfforddiant penodol.

Roedd ein cleientiaid yn cynnwys:

Y Sector Cartrefi Cymunedol

Rydym wedi creu partneriaethau cryf gyda'r sector yn ystod 2014-15. Rydym wedi darparu sesiynau arweinyddiaeth mewn tair o gynadleddau allweddol y sector ac wedi rhoi hyfforddiant datblygu uniongyrchol i ystod o sefydliadau megis Coastal Housing, Tai Powys, Cartrefi RhCT a Tai Pawb. Roedd hyn yn canolbwyntio ar Arweinyddiaeth Addasol, Gwydnwch Meddyliol a Rheoli Newid yn Llwyddiannus.

Llywodraeth Cymru – Llwybr Carlam

Fe wnaethom gynllunio a darparu 'rhaglen fodlonrwydd' ddeuddydd o hyd a oedd yn cynnwys Deallusrwydd Emosiynol, Seicoleg Gadarnhaol Gymwysedig, Gwydnwch Meddyliol a Chreu Perthnasau Effeithiol, er mwyn

galluogi bodlonrwydd o ran rheolaeth yn y gweithle.

Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin

Fe wnaethom ddarparu nifer o sesiynau gan gynnwys Seicoleg Gadarnhaol Gymwysedig, Gwydnwch Meddyliol a Chreu Perthynasau Effeithiol. Fe wnaethom ddilyn hyn â sesiynau 'hyfforddi'r hyfforddwr' fel y gallai'r sefydliadau partner gynyddu nifer y bobl y maent yn eu cyrraedd a sicrhau bod y dysgu yn gynaliadwy.

Uned Dalfa Heddlu Gwent

Fe wnaethom ddarparu ystod o sesiynau datblygu arweinyddiaeth bersonol, wedi'u creu yn sgil trafodaethau gyda'r sefydliad. Galluogodd hyn inni gynnal hyfforddiant datblygu tîm ar gyfer tua 50 o staff dalfa a swyddogion heddlu. Fe wnaethom gwmpasu meysydd megis Gwydnwch Meddyliol, Seicoleg Gadarnhaol Gymwysedig, Cymhelliant a Chreu Perthynasau Effeithiol.

Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus

Fe wnaethom ddarparu ystod o sesiynau datblygu ar gyfer y cynllun 'Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus' mewn partneriaeth â Chwarae Teg ac Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd. Roedd rhain yn cynnwys sesiwn 'Cyflwyniad i Lywodraethu' wedi'i theilwra, defnyddio Canllaw Llywodraethu Da Academi Wales a lleoedd ar 'Springboard' – ein rhaglen ddatblygu i fenywod – ar gyfer y rhai oedd yn cymryd rhan yn y cynllun.

Y Trydydd Sector

Fe wnaethom barhau i gefnogi ac ymwneud â'r trydydd sector, ac esblygu ein perthynas â Llif Gwaith Partneriaeth y Trydydd Sector er mwyn datblygu sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiad. Fe wnaethom ddarparu sesiynau datblygu, rhannu gwybodaeth mewn cynadleddau a gweithio i ddatblygu cynlluniau hyfforddi'r hyfforddwr. Fe wnaethom weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a hyrwyddo'r gwaith hwn mewn partneriaeth â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA).

Digwyddiad Arweinwyr Adnoddau Dynol Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Cynhaliwyd y pedwerydd digwyddiad blynyddol arweinwyr adnoddau dynol ar 25 Mawrth 2015. Y thema eleni oedd 'Goresgyn er mwyn Llwyddo' ac roedd yn ddiwrnod o archwilio sut gallwn helpu ein hunain a'n pobl i fod yn fwy gwydn, i ymdrechu i wneud ein gorau ac i droi heriau yn gyfleoedd. Roedd 67 o Gyfarwyddwyr Adnoddau Dynol o bob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn bresennol. Ymhlith y siaradwyr roedd:

- Rhys Williams, cyn-chwaraewr rygbi rhyngwladol Cymru, sydd bellach yn Arweinydd Cysylltiadau Llywodraeth a Busnes GE Aviation Wales
- Nadine B Hack, prif swyddog gweithredol beCause Global Consulting, sydd wedi'i henwi yn un o'r 100 o arweinwyr meddwl gorau ar ymddygiad busnes dibynadwy, ac sydd wedi arwain gwaith arloesol ar arweinyddiaeth gyswllt, gan greu ei fframwaith unigryw 'Strategic Relational Engagement'
- Jamie Baulch, athletwr Olympaidd a siaradwr ysgogol.
- Cynhaliwyd sesiwn hefyd ar ddiwygio'r gwasanaethau cyhoeddus, wedi ei hwyluso gan Caren Fullerton, un o Gyfarwyddwyr Llywodraeth Cymru.

"Y digwyddiad gorau a gynhaliwyd i arweinwyr AD hyd yma."

"Ystod eang o siaradwyr profiadol oedd yn taflu golwg fanwl ar eu llwybr i lwyddiant."

Digwyddiad Arweinwyr AD 2015

Darparwyd tri gweithdy ar bynciau perthnasol iawn sef: Gwersi a Ddysgwyd o Gyfuno Addysg Bellach; Cysylltiadau â'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) yng Nghymru; ac Arweinyddiaeth ar y Cyd.

Roedd yr adborth gan y rhai a fynychodd yn rhagorol, ac yn cadarnhau eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i wynebu heriau'r gweithlu ac adnoddau dynol ynghyd.

5. Ymchwil a datblygu

Fe wnaethom weithio gyda sefydliadau academiaidd i esblygu ymchwil a darpariaeth gan ymarferwyr ar gyfer arweinyddiaeth a datblygiad sefydliadol. Mae'r gwaith hwn wedi cynyddu'n sylweddol nifer y bobl yr ydym yn eu cyrraedd yn y sector. Fe wnaethom ddechrau'r gwaith datblygu hwn yn ystod 2014-15 ac rydym yn bwriadu archwilio cyfleoedd pellach yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Mae ein gwaith hyd yma yn cynnwys:

Partneriaethau Academaidd

Fe wnaethom gynllunio gweithio mewn partneriaeth am dair blynedd gyda Rhwydwaith Datblygiad Sefydliadol Ewrop (ODN)- sefydliad academiaidd ac ymarferwyr ar y cyd – gan gynnwys noddi eu gwobrau blynyddol. Fe wnaethom hefyd ddarparu sesiwn dilyn hynt rheoli newid a dangos poster yn eu cynhadledd gyntaf, a pharhau i ymwneud ag ymarferwyr ar draws Ewrop.

Cynrychiolwyd Academi Wales yn nyddiau datblygu chwarterol Grŵp Diddordeb Arbennig Cynllunio a Datblygu Sefydliadol Ysgol Fusnes Caerhirfryn (LUMS SIG) er mwyn trafod ymchwil a thueddiadau i'r dyfodol. Fe gawsom hefyd fewnbwn i bapur gwyn Ysgol Fusnes Caerhirfryn ar Ddysgu a Datblygu ar gyfer y Dyfodol.

Darpariaeth Academaidd

Fe wnaethom ddarparu 'Rheoli Newid yn Llwyddiannus' i staff academiaidd ac anacademaidd ym Mhrifysgol Bangor er mwyn cefnogi newid sefydliadol. Fe wnaethom ddarparu 'Datblygiad Tîm i Arweinwyr Uwch' i staff academiaidd ym Mhrifysgol De Cymru er mwyn cefnogi'r gwaith o hyrwyddo datblygiad arweinyddiaeth yn seiliedig ar werthoedd a chryfderau.

Gwasgaru Hadau


Fe wnaethom lansio pedwar cyhoeddiad newydd Gwasgaru Hadau yn Ysgol Haf 2014, gan wneud hwn yn gasgliad o bedwar rhifyn ar ddeg i gyd. Dyma'r pynciau newydd a gyflwynwyd:

- 'Sefydliadau Perfformiad Uchel – Ymagwedd Systemau Cyfan i effeithiolrwydd hirdymor'
- 'Tueddiadau'r Dyfodol ym maes Arweinyddiaeth – Ymddygiad, nodweddion a gwerthoedd ar gyfer y degawd nesaf'
- 'Cydwethredu – Adeiladu perthnasau newydd ar gyfer canlyniad gwell'
- 'Ymwybyddiaeth Ofalgar – Defnyddio ein hadnoddau personol ar gyfer mwy o lwyddiant'




6. Data mynychwyr

Rhaglenni Rheolaidd Arweinyddiaeth a Datblygiad Sefydliadol, Mynychwyr fesul Sector



Rhaglenni Pwrpasol Arweinyddiaeth a Datblygiad Sefydliadol, Mynychwyr fesul Sector



Datblygu Arweinyddiaeth GIG



1. Diben strategol

Mae'r tîm yn cefnogi'r gwaith o gynllunio a darparu ystod o raglenni arweinyddiaeth, rheolaeth a datblygu sefydliadol, sy'n cyd-fynd ag agenda gweithlu a gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru.

2. Trosolwg

Mae ein rhaglen waith yn cefnogi'r Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol (LIC) a sefydliadau'r GIG i gyflawni'r amcanion a nodir yn Gweithio'n Wahanol – Gweithio Law yn Llaw, Fframwaith i Ddatblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad (2012).

Mae'r holl ymyriadau datblygu yn cefnogi'r dysgu ar gyfer GIG Cymru o *Darparu Gofal Diogel, Gofal Tosturiol* (2013), *Ymddiried mewn Gofal* (2014), *Achieving prudent healthcare in NHS Wales* (2014) a Chomisiwn Bevan - *Promoting health and health services improvement in Wales* (2014).

3. Rhaglenni, cyrsiau a digwyddiadau

3.1 Cynllun Hyfforddiant Rheoli i Raddedigion GIG Cymru – Rhaglen Ddatblygu Uwch (ADP)

Fe wnaeth carfan 2012-2014 o hyfforddeion rheolaeth GIG Cymru raddio ym mis Hydref 2014, gan lwyddo i ddatblygu eu sgiliau arwain a rheoli craidd a meithrin y gallu i weithio'n gydweithredol ar draws ffiniau proffesiynol a sefydliadol.

3.2 Arweinyddiaeth Feddygol a Chlinigol

Fe wnaethom gefnogi sawl menter oedd wedi'u hanelu at feddygon a chlinigwyr i gefnogi eu datblygiad personol a phroffesiynol. Gan weithio'n agos â'r Prif Swyddog Meddygol a'r Prif Swyddog Nyrsio, fe wnaethom gefnogi gwaith cynllunio a darparu digwyddiadau trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys datblygu Cymuned Arweinyddiaeth Glinigol ar gyfer GIG Cymru.

Arweinyddiaeth Glinigol - Datblygu Nyrsys Ymgynghorol / Therapyddion

Fe wnaethom ddarparu cefnogaeth o ran arweinyddiaeth drwy gyfrwng nifer o ymyriadau ar gyfer ymgynghorwyr anfeddygol ledled GIG Cymru, gan eu helpu i wella eu heffeithiolrwydd yn eu swyddi.



Yr Athro June Andrews

Darparwyd hyn mewn ffordd gyfun oedd yn cynnwys gweithdai, dysgu gweithredol, llwybrau e-ddysgu a rhaglen ddatblygu ddeuddydd o hyd ar gyfer nyrsys ymgynghorol, bydrwagedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd.

Cynhadledd Arweinyddiaeth Glinigol a Chyswllt

Yn sgil llwyddiant cynhadledd y llynedd, fe wnaethom gynnal dau ddigwyddiad ar wahân – digwyddiad Dysgu Arweinyddiaeth Glinigol (Ebrill 2014) a Chynhadledd Arweinyddiaeth Glinigol (Medi 2014) – dan y thema ‘Ymddiried i Arwain’. Fe wnaeth y siaradwyr allweddol ganolbwyntio ar bwysigrwydd creu diwylliant o arwain sy’n cefnogi profiad diogel, o ansawdd uchel i gleifion.

Ymhlith y siaradwyr roedd:

- Yr Athro Mark Drakeford, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
- Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru ,
- Yr Athro June Andrews, Cyfarwyddwr Canolfan Datblygu Dementia Prifysgol Stirling
- Yr Athro Michael West, Canolfan Adnoddau Dynol seiliedig ar Berfformiad, Prifysgol Caerhirfryn



“Fe gynorthwyodd y rhaglen i ehangu fy ngweledigaeth o ddyfodol GIG Cymru a herio fy ffordd o feddwl am sut y gellir darparu gwasanaethau yn fwy effeithlon ac effeithiol.”
Rhaglen Arweinyddiaeth Feddygol

Rhaglen Arweinyddiaeth Feddygol

Ym mis Hydref 2014 dechreuodd ein trydedd carfan y rhaglen, gan gynnwys cyfranogwyr o sefydliadau gofal iechyd ar draws Cymru a chymrodwr hyfforddiant arweinyddiaeth glinigol Deoniaeth Cymru.

Yn rhan o'r rhaglen, cwblhaodd y mynychwyr brosiect gwella gwasanaeth gyda chefnogaeth noddwr gweithredol. Mae gan y rhaglen achrediad academiaidd o Athrofa Cymru ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith, Prifysgol Cymru Drindod Dewi Sant.

Mae'r gwerthuso hyd yma wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol. Bydd gwerthusiad allanol annibynnol yn cael ei gynnal yn 2015-16.

3.3 Datblygu Bwrdd

Fe wnaethom gynnig ystod o ymyriadau i gefnogi datblygiad personol a phroffesiynol byrddau. Roedd rhain yn cynnwys:

- **Dau ar y Brig – ar gyfer Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr:** fe ddechreuodd nifer o sefydliadau ar y rhaglen hon yn ystod 2014-2015
- **Rhaglen Datblygu Byrddau:** cwblhawyd y rhaglen gyntaf ym mis Rhagfyr 2014 gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

- **Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau'r GIG yng Nghymru: Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well:** yn ystod 2014-15 fe wnaethom hyrwyddo integreiddio'r canllaw a'r egwyddorion sy'n sail iddo yn rhan o arferion dydd i ddydd Byrddau.
- **Seminarau y Gyfres Llywodraethu:** mewn partneriaeth â Chonffederasiwn GIG Cymru, darparwyd sesiwn ddatblygu ar gyfer Cadeiryddion ym mis Mai 2014. Rydym yn cynllunio mwy o seminarau ar ddatblygiad strategol a gwneud penderfyniadau wedi'u hanelu at yr holl aelodau Bwrdd yn 2015-16.
- **Datblygiad Bwrdd Pwrpasol:** fe wnaethom gynnig y cyfleoedd hyn i gefnogi anghenion datblygu penodol aelodau bwrdd, gan gynnwys datblygu'r tîm Gweithredol, hyfforddi, mentora, a datblygiad penodol i'r proffesiwn, megis Cyfarwyddwyr Meddygol a Chyfarwyddwyr Nyrsys, Cadeiryddion ac Ysgrifenyddion Byrddau.



3.4 Datblygu Arweinwyr Uwch (Profiad Arweinyddiaeth Uwch)

Rydym wedi cychwyn dwy garfan ar y rhaglen hon yn ystod 2014-15. Fe wnaethom gyfuno diagnosteg, dysgu yn yr ystafell ddosbarth a phroffilio gyda hyfforddiant datblygiad personol a thrafodaeth. Rydym yn cefnogi ac yn herio mynychwyr mewn sesiynau sydd wedi'u cynllunio i ddyfnhau myfyrto personol a throsglwyddo dysgu.

3.5 Rheolaeth Ganol (Arwain o'r Canol)

Rydym wedi dechrau gweithio gyda sefydliadau i gyd-gynhyrchu fframwaith i greu cysondeb o amgylch datblygiad rheolaeth ganol GIG Cymru a byddwn yn datblygu hyn a'i roi ar waith yn ystod 2015-16.



3.6 Cefnogi Darpar Arweinwyr

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi darparu ymyriadau megis dysgu gweithredol, datblygiad personol, cefnogi alumni, rheoli gyrfaedd, hyfforddi a mentora.

4. Partneriaethau a rhwydweithiau

Model Arweinyddiaeth Gofal Iechyd (HLM)

Ym Mai 2014 daeth y Model Arweinyddiaeth Gofal Iechyd i gymryd lle y Fframwaith Rhinweddau Arweinyddiaeth blaenorol. Er mwyn sicrhau gwasanaeth cynaliadwy ar y gost isaf bosibl, fe wnaethom ddarparu sesiynau 'hyfforddi'r hyfforddwr' ym mis Ionawr 2015, gan arwain at achredu naw hwylusydd GIG Cymru ar gyfer y Model Arweinyddiaeth Gofal Iechyd, a fydd yn hyfforddi hyd at ddeugain o hwyluswyr newydd.

Fframwaith Cymwyseddau Craidd GIG Cymru ar gyfer Rheolwyr a Goruchwylwyr

Fe wnaethom arwain datblygiad y fframwaith a'r adnodd hunanasesu ar-lein hwn mewn partneriaeth â GIG Cymru, sy'n cefnogi gwella safonau rheolaethol mewn ymateb i *Adroddiad Ymchwiliad Cyhoeddus Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canolbarth Swydd Stafford* (2013) a'r prosiect Gweithio'n Wahanol, Gweithio Law yn Llaw (WDWT). Cafodd y fframwaith ei lansio yng Nghynhadledd Cymdeithas Rheoli Pobl Gofal Iechyd Cymru (HPMA) ym Mai 2014.

5. Ymchwil a datblygu

GIG Cymru – adroddiadau a phapurau

Rydym wedi cynhyrchu nifer o bapurau ar gyfer Tîm Cyfarwyddwr Gweithredol GIG Llywodraeth Cymru, Grŵp y Prif Weithredwr a Grŵp y Cyfarwyddwr Gweithlu. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Datblygu Rhaglen Arweinyddiaeth y GIG
- Arweinyddiaeth Glinigol
- Talent ac Olyniaeth Rheolaeth, ac
- Addysg Gofal Iechyd ar draws Cymru

6. Data mynychwyr

Cwblhaodd 1,577 o fynychwyr raglen/ymyriad datblygu arweinyddiaeth – cynnydd o 45% o'i gymharu â 2013-14.

Darparwyd 32 o raglenni/ymyriadau datblygu arweinyddiaeth – cynnydd o 39% o'i gymharu â 2013-14.



Digwyddiad Dysgu Arweinyddiaeth Glinigol

Talent ac Olyniaeth



1. Diben strategol

Mae'r tîm yn darparu ystod eang o gyfleoedd unigryw i adolygu ac adnewyddu sgiliau presennol er mwyn cefnogi datblygiad gweithgareddau rheoli talentau ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

2. Trosolwg

Mae ein rhaglen waith yn rhoi'r cyfle i roi gwybodaeth a dealltwriaeth i uwchreolwyr ac arweinwyr drwy ystod eang o weithgareddau dysgu sy'n sicrhau bod gweithwyr talentog yn gwneud y gorau o'u potensial yn y sefydliad. Yn 2014 -15 fe wnaeth y tîm ddarparu a llwyfannu nifer o gyfleoedd dysgu yn yr ystafell ddosbarth a dysgu drwy brofiad ar draws nifer o feysydd allweddol:

- Rhaglen Bwrsariaeth Arweinyddiaeth
- Rhaglenni Arweinyddiaeth Preswyl
- Lleoliadau Rhyngwladol
- Cynadleddau
- Rhaglenni wedi'u Hachredu

"Fe wnaeth y gwaith trefnu ac ystod y siaradwyr/gweithdai argraff arnaf. Dysgais gymaint... roedd yn rhyfeddol. Cefais gyfle mewn awyrgylch heb wrthdaro i archwilio fy arddull arwain fy hun a chwestiynu rhai o'm harferion."

Ysgol Haf 2014

3. Rhaglenni preswyl

Roedd **Ysgol Haf Gwasanaeth Cyhoeddus 2014** yn rhaglen ddysgu breswyl 5 diwrnod o hyd a oedd yn dwyn ynghyd gymuned ddysgu o 200 o fynychwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. Cynhaliwyd Ysgol Haf 2014 ym Mhrifysgol Cymru, Drindod Dewi Sant a'r thema oedd "Ymddiriedaeth – Sail Llwyddiant".

Rhoddodd yr Ysgol Haf gyfle i fynychwyr adolygu ac adnewyddu eu sgiliau presennol, adeiladu gwybodaeth newydd a chael golwg fanwl ar brosesau arweinyddiaeth blaengar, ac archwilio ffyrdd arloesol o ddarparu'r busnes. Roedd y rhaglen yn cynnwys 9 o brif gyflwyniadau gan siaradwyr ac awduron sydd ag enw da yn rhyngwladol, ystod eang o weithdai (19), hwyluswyr yn cefnogi 16 o grwpiau a 4 hyfforddwr gweithredol cymwys. Gallai mynychwyr ddewis cael yr hyn yr oeddent yn ei ddysgu yn yr Ysgol Haf wedi'i asesu'n ffurfiol ar gyfer achrediad tuag at gymhwyster uwchraddedig.

Cynhaliwyd **Ysgol Aeaf Gwasanaeth Cyhoeddus 2015** yn Nant Gwrtheyrn, Gogledd Cymru. Roedd yn rhaglen breswyl ddeuddydd o hyd, yn dwyn ynghyd arweinwyr lefel uchaf o bob rhan o'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol yng Nghymru i greu ffyrdd newydd o arwain a rheoli'r busnes a datblygu dulliau newydd o sicrhau'r perfformiad gorau posibl.

Thema'r pedwerydd digwyddiad hwn oedd "Arwain y Ffordd wrth Greu Sefydliadau Cadarnhaol". Bob diwrnod roedd y rhaglen yn canolbwyntio ar agwedd benodol o arweinyddiaeth. Ymhlith y siaradwyr ar gyfer 2015 roedd: Linda Holbeche PhD Cyd-Gyfarwyddwr Partneriaeth Holbeche, Karyn McCluskey, Cyfarwyddwr, Uned Lleihau Trais yr Alban, Ian Macdonald, Macdonald Consultancy, a Dr Carl Clowes, sylfaenydd Nant Gwrtheyrn.

Cafodd yr Ysgol Aeaf gyfradd bodlonrwydd o 100%.

- Derbyniwyd 63 o geisiadau am 35 o leodedd yn Ysgol Aeaf 2015

Roedd **Cynhadledd Ymwybyddiaeth Ofalgar a Hyfforddi Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru** yn un o gyfres o weithgareddau i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus cydweithrediaeth hyfforddi gwasanaeth cyhoeddus Academi Wales, a'r gymuned arweinwyr strategol dysgu a datblygu ehangach. Rhoddodd y digwyddiad y cyfle i rannu dysgu ynghylch Lleihau Straen yn seiliedig ar Ymwybyddiaeth Ofalgar (MBSR) a ddatblygwyd gan Jon Kabat-Zinn yn Ysgol Feddygol Prifysgol Massachusetts. Gan fabwysiadu dull astudiaethau achos, fe roddodd enghraifft ymarferol o ddefnyddio'r cysyniad i sicrhau llwyddiant.

"Fe wnaeth y brif araith ar ymwybyddiaeth ofalgar a'r sgwrs 'ymwybyddiaeth ofalgar: newid y ffordd yr ydych yn meddwl' godi fy ymwybyddiaeth bersonol o rym ymwybyddiaeth ofalgar i mi, fy nheulu a'm proffesiwn. Roedd yn gyflwyniad a oedd yn gwneud i chi deimlo'n ostyngedig, ac roedd y bobl ifanc yn ysbrydoliaeth."

Cynhadledd Ymwybyddiaeth Ofalgar a Hyfforddi 2015



Dechreuodd y gynhadledd gydag astudiaeth achos ar effeithiau ymarferol ymwybyddiaeth ofalgar gan Ysgol Dewi Sant. Roedd hyn yn cynnwys myfyriadau personol gan yr actor Jerome Flynn, y pennaeth ysgol David Haynes a'r dirprwy bennaeth Pippa Raggett. Ymhlith y siaradwyr eraill roedd Caroline Goyder, awdur *GRAVITAS*, a Moira Morgan, ymarferydd ymwybyddiaeth ofalgar o fewn Academi Wales.

Roedd eu sesiynau ymarferol yn rhannu technegau i greu gravitas naturiol, a chreu'r hunanhyder i berswadio, dylanwadu a negodi.

- Derbyniwyd 130 o geisiadau am 120 o leodedd yn y gynhadledd

4. Lleoliadau Rhyngwladol

Mae'r rhaglen **Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol (ILO)** yn cynnig cyfle unigryw i'r rhai sy'n cymryd rhan dreulio wyth wythnos yn Affrica is-Sahara. Ei nod yw gwella arweinyddiaeth, gan ei bod yn cynnig profiad trochi sy'n cynnwys arwain prosiectau rheoli penodol o fewn sefydliadau Affricanaidd.

Fe'i hariennir gan raglen Cymru o Blaid Affrica Llywodraeth Cymru, ac mae Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol hefyd yn cynnig ffordd ymarferol o gefnogi Cymru i gyfrannu tuag at gyflawni Nodau Datblygu'r Mileniwm.

- Bu i 23 o gyfranogwyr gwblhau'r rhaglen recriwtio Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol yn llwyddiannus ar gyfer 2014-15
- Ar hyn o bryd rydym ar y trywydd cywir i gyrraedd ein targed o anfon 15 o wirfoddolwyr ar leoliadau newydd

“Mae'r rhaglen yn herio tybiaethau traddodiadol a dulliau o arfer arweinyddiaeth er mwyn datrys materion strwythurol hirdymor sy'n effeithio ar ein gallu i fod yn fwy effeithiol ac ymdopi â newid parhaus. Rhoddodd y cwrs gyfoeth o ddealltwriaeth gan gyfoedion, a oedd heb ei ail. Roedd yn ysbrydoliaeth gallu manteisio ar brofiadau a safbwyntiau tua 70 o bobl o bob rhan o'r byd – yn gweithio ar lefelau uwch mewn ystod o ddiwydiannau a sectorau – oedd wedi cymryd amser o'u hamserlenni prysur i oedi, myfyrio a dysgu.”
Rhaglen Bwrsariaeth Arweinyddiaeth

Ar hyn o bryd rydym ar y trywydd cywir i gyrraedd ein targed o anfon 15 o wirfoddolwyr ar leoliadau newydd Mae'r **Rhaglen Bwrsariaethau Arweinyddiaeth** yn cynnig gwobr bwrsari o hyd at 50% o gost cymryd rhan mewn rhaglenni dysgu gweithredol mewn sefydliadau a chanddynt enw da yn rhyngwladol. Yn ystod 2014-15, dewiswyd y bwrsariaethau i gefnogi datblygiad rheolwyr i feddwl tu hwnt i'w gorwelion uniongyrchol er mwyn archwilio'r potensial ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol.

- Dyfarnwyd lleoliadau i 7 ymgeisydd yn dilyn proses ddethol gystadleuol
- Bu'r ymgeiswyr yn astudio mewn sefydliadau academiaidd a gydnabyddir yn rhyngwladol gan gynnwys Ysgol Fusnes Ashridge, Ysgol Reolaeth Cranfield, Ysgol Lywodraeth Harvard Kennedy ac Ysgol Fusnes INSEAD.

5. Rhaglenni wedi'u Hachredu

Cyfrannodd Academi Wales 50% o gost y rhaglen ar gyfer 14 lle i arweinwyr ennill cymhwyster hyfforddi **Lefel 7 y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM)**.

Fe wnaethom recriwtio carfan newydd o 14 o ddarpar arweinwyr i **Gynllun Hyfforddiant Rheolaeth i Raddedigion GIG Cymru 2014-2016**. Dechreuodd yr hyfforddeion rheolaeth newydd ar eu cyflogaeth ym Medi 2014.

Mae'r cynllun yn cynnig rhaglen llwybr carlam dwy flynedd o hyd sydd wedi'i chynllunio'n arbennig i gwrdd â'r gofynion strategol ar gyfer gallu rheolaethol cadarn yn GIG Cymru.

Mae'r rhaglen yn seiliedig ar waith ac yn canolbwyntio ar y gofynion angenrheidiol i wneud swydd go iawn yn y GIG yn ogystal â rhoi cymhwyster proffesiynol i raddedigion ar lefel Meistr.


Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i recriwtio ar gyfer rhaglen 2016-2018; bydd y cylch ceisiadau yn agor yn ystod gwanwyn 2016.

- Derbyniwyd 336 o geisiadau ar gyfer carfan 2014-2016
- Derbyniwyd 79 o geisiadau gan ymgeiswyr oedd eisoes wedi'u cyflogi o fewn y GIG
- Yn dilyn proses recriwtio bum cam, gwahoddwyd 32 o ymgeiswyr i gyfweiliad a chyflwyniad
- Cafodd 14 o ymgeiswyr eu recriwtio a'u gosod o fewn 10 o sefydliadau GIG Cymru



6. Data mynychwyr

Mynychwyr Talent ac Olyniaeth fesul Sector



Enjoy, like, comment and share! Summer School videos [#sswales](https://www.youtube.com/hashtag/sswales) [ow.ly/zY1do](https://www.youtube.com/watch?v=zY1do)

← ↻ ★ ...

View Tweet activity



RETWEETS

11

FAVORITES

5



Tîm Busnes

1. Diben strategol

Mae'r tîm yn cefnogi Academi Wales i ddarparu cynnyrch a gwasanaethau cost-effeithiol sy'n cael eu rhedeg yn dda. Mae ein gwaith yn cynnwys cyfathrebu ac ymwneud â chleientiaid a rhanddeiliaid, caffael nwyddau a gwasanaethau, prosesu ariannol a monitro cyllidebau. Rydym hefyd yn llywio'r holl weithgaredd busnes fel ei fod yn cyd-fynd â safonau a gofynion Llywodraeth Cymru.

2. Trosolwg

Yn 2014-15 fe wnaethom weithio i gefnogi'r ystod eang o weithgareddau oedd yn cael eu cyflawni gan dîm Academi Wales. Ein prif feysydd gwaith oedd gwella ein presenoldeb ar-lein a digidol, monitro adborth gwerthuso ac adrodd yn ôl arno a chomisiynu a chaffael nwyddau ar gyfer rhaglenni Academi Wales.

Fe wnaethom hefyd baratoi ar gyfer asesu yn erbyn **safon 180001** y Gwasanaeth Cynghorwyr Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (**OHSAS**) ac adolygu a diweddarau ein **Strategaeth Sgiliau Dwyieithog**.

3. Cyfathrebu, Cyswllt, Llywodraethu a Chyllid

Strategaeth Ddigidol a Chynllun Cyfathrebu

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein cyfathrebu gweithgar a difyr gyda'n cynulleidfia, gan ein helpu i gyrraedd a dylanwadu ar gynifer o bobl â phosibl.

Gwefan Academi Wales

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein gwefan, gan ychwanegu ardal 'pwnc llosg' i'r dudalen hafan a chreu dwy dudalen gyfeirio newydd gyflym a syml – 'canfod cwrs' a 'canfod cwrs ar-lein'. Rydym wedi cyflwyno adran sy'n ymwneud yn benodol ag Ymwybyddiaeth Ofalgar, un o'n pynciau mwyaf poblogaidd, sy'n cynnwys fersiynau pdf a Kindle o'r cyhoeddiad Ymwybyddiaeth Ofalgar Gwasgaru Hadau a lawrlwythiadau sain o ymarferion ymwybyddiaeth ofalgar. Rydym hefyd wedi gweithio gyda'n cyfranogwyr Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol i greu ardal newydd 'Straeon o Affrica' sy'n rhannu'r profiadau y maent wedi eu cael ar y rhaglen drwy gyfrwng fideos, lluniau a blogiau.

Sianel Ddysgu Academi Wales

Mae Sianel Ddysgu Academi Wales yn wefan arobryn sy'n cynnig mynediad unigryw i amrywiaeth o ddysgu ar-lein, gan gynnwys ein porth e-ddysgu SkillPort.

E-Ddysgu yn SkillPort

SkillPort yw ein porth e-ddysgu, sy'n cynnig ystod eang o fodiwlau dysgu ar arweinyddiaeth, newid a gwella gwasanaeth.

Bwletin Academi Wales

Mae ein bwletin yn parhau i fod yn un o'n dulliau cyfathrebu mwyaf poblogaidd ac fe wnaethom wella ein gwasanaeth drwy symud i blatfform ar-lein newydd. Arweiniodd hyn at rifynnau mwy diddorol a chyffrous o'r bwletin; rydym wedi cael adborth cadarnhaol ar ein diwyg newydd, ac fe dyfodd nifer y tanysgrifwyr yn gyson



fis ar ôl mis.

Gwerthuso rhaglenni a digwyddiadau

Roedd yr adborth o'n digwyddiadau a'n rhaglenni yn parhau i fod yn gadarnhaol. Y sgôr gwerthuso cyfartalog ar draws 2014-15 oedd 95%.

Polisi cost rhaglenni a chanslo

Fe wnaethom barhau i gynnig y rhan fwyaf o'n cynnyrch a'n gwasanaethau yn rhad ac am ddim. Roeddem yn codi tâl am raglenni gan gynnwys yr Ysgolion Haf a Gaeaf a'r Gynhadledd Ymwybyddiaeth Ofalgar a Hyfforddi ar sail cynnig cymhorthdal. Defnyddiwyd y cyfraniadau tuag at gostau megis llogi'r lleoliad a ffioedd preswyl. Fe wnaethom gyflwyno polisi canslo i sicrhau bod cynifer â phosibl o fynychwyr yn cymryd rhan ac i leihau cymaint â phosibl ar gostau oedd yn cael eu gwastraffu.

Rheolaeth ariannol

Fe wnaethom lwyddo i ddarparu ein rhaglenni a'n digwyddiadau gyda gostyngiad o £200,000 o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, i £1.415 miliwn.

Ar sail cyfanswm y gyllideb rhaglenni, sef £1.415 miliwn, a chyfanswm o 10,876 o fynychwyr yn cymryd rhan ac 11,224 o ddyddiau hyfforddi wedi'u darparu, mae'r costau darparu cyfartalog yn cyfateb i £130 y person (gostyngiad o 39% o'i gymharu â 2013-14) a £126 fesul diwrnod o hyfforddiant (gostyngiad o 10% o'i gymharu â 2013-14).

Cyswllt â staff

Ar draws Academi Wales, mae gennym amrywiaeth o batrymau gweithio gan gynnwys llawn-amser, rhan-amser a chyfnod penodol. **Nifer ein staff** ar gychwyn 2014-15 oedd 34, gan gynnwys 4 person wedi'u secondio o'r tu mewn i wasanaeth cyhoeddus Cymru, a 2 swydd wag. Ar ddiwedd y flwyddyn y ffigwr yw 30, gan gynnwys 3 pherson ar secondiad a 3 swydd wag. Rydym wedi ailflaenoriaethu ein hadnoddau er mwyn parhau i gyflawni ein hamcanion gan reoli amgylchedd sy'n heriol yn ariannol ar yr un pryd.

Fe wnaethom barhau i ddatblygu fel tîm yn ystod ein gweithgareddau o ddydd i ddydd ac yn ein dau ddiwrnod adeiladu tîm a hefyd drwy gynnal nifer o brosiectau oedd yn myfyrio ar ein cyfranogiad a'n hymroddiad i'n cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Dyma rai o'r prosiectau allweddol yr ydym wedi'u cefnogi eleni:

- Gwirfoddoli fel tîm a chlirio tir Parc Gwledig Porthceri.
- Am y drydedd flwyddyn yn olynol fe wnaethom drefnu casgliad bwyd Nadolig ar gyfer FareShare Cymru. Drwy gyfrwng y casgliad hwn cafodd cyfanswm o tua 20 crât (396kg o fwyd) ei gyfrannu – roedd hynny yn ddigon i gyfrannu tuag at dros 940 o brydau.
- Cynhaliwyd nifer o fentrau codi arian i godi arian i'r Sick Children's Society a Cancer Research UK
- Mae gennym drefn gasglu barhaus ar gyfer hetiau, menig, sgarffiau a deunyddiau ymolchi i'w cyfrannu i Safer Wales

Fe wnaeth **Arolwg Staff Blynyddol** y Gwasanaeth Sifil beintio darlun cryf o gyswllt ein tîm â'r gwaith yr ydym yn ei gyflawni. Fe wnaethom sgorio 88% ac uwch yn y sbardunau cyswllt canlynol:

- Fy ngwaith
- Amcanion a diben sefydliadol
- Fy nhîm



Data Mynychwyr a Chyswllt


Mae digwyddiadau Academi Wales yn agored i staff a gyflogir yn y sectorau canlynol:

Addysg	Ysgolion, Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch yng Nghymru
Tân ac Achub	Sefydliadau tân ac achub yng Nghymru
Awdurdodau Lleol	Awdurdodau lleol yng Nghymru
GIG Cymru	Sefydliadau GIG Cymru
Heddlu	Gwasanaethau heddlu yng Nghymru
Trydydd/Gwirfoddol	Sefydliadau trydydd sector/sector gwirfoddol yng Nghymru
Llywodraeth Cymru	Adrannau Llywodraeth Cymru
WGSB	Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru: Sefydliadau sector cyhoeddus Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru
Whitehall	Sefydliadau sector cyhoeddus Cymru sy'n cael eu rhedeg gan Lywodraeth y DU
Cyrff a Noddir gan Whitehall	Sefydliadau sector cyhoeddus Cymru a ariennir gan Lywodraeth y DU
Arall	Gwesteion o sefydliadau nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan y diffiniadau uchod




Cynulleidfa darged	Cyfanswm nifer y mynychwyr	Cyfanswm nifer y dyddiau hyfforddi	Cymhareb
Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr / Uwchreolwr	1,473	1,221	1
Rheolwr Canol / Ymarferwr	1,804	2,387	2
Agored i bob lefel	7,599	7,616	6.2
Cyfansymiau	10,876	11,224	

Ffigwr 5




Ffigwr 6

Lleoliadau Darparu Rhaglenni



Ffigwr 7

Cymarebau Dyddiau Hyfforddi fesul Cynulleidfa



Ffigwr 8

Dysgu Ar-lein


Sianel Ddysgu Academi Wales

www.learningwales.tv

Mae Sianel Ddysgu Academi Wales yn wefan arobryn sy'n cynnig mynediad unigryw i amrywiaeth o ddysgu ar-lein, gan gynnwys ein porth e-ddysgu SkillPort.

Prif nodweddion:

- **Arddangosfa:** casgliad o fideos a phodlediadau
- **Grwpiau:** ardal ar gyfer rhwydweithiau cymunedol
- **E-ddysgu:** e-ddysgu arbennig ar gyfer aelodau ar SkillPort
- **Offer Gyrfaoedd:** arweiniad, dogfennau a chlipiau fideo i helpu i reoli eich gyrfa
- **Lab Dysgu:** llyfrgell o lyfrau sydd ar gael i'w benthyg
- **Hyfforddi a Mentora:** gallwch ganfod hyfforddwr neu fentor cymwys drwy ddefnyddio Coaching Wales a Mentoring Wales



Ffigwr 9

Cafodd y Sianel Ddysgu ei chreu'n wreiddiol ar gyfer GIG Cymru, felly daw mwyafrif y defnyddwyr o'r sector hwnnw.


E-Ddysgu yn SkillPort

SkillPort yw ein porth e-ddysgu, sy'n cynnig ystod eang o fodiwlau dysgu ar arweinyddiaeth, newid a gwella gwasanaeth.

Nodweddion allweddol:

- **Fideos:** clipiau byrion o siaradwyr ar bynciau pwysig
- **Senarios:** heriau busnes rhyngweithiol i'ch profi eich hun
- **Podlediadau:** clipiau dysgu byrion ar gyfer eich iPod
- **Llyfrau:** crynodebau i'ch Kindle neu'ch e-darllenrydd
- **Gweddarllediadau:** sesiynau byw ac wedi'u recordio gydag arbenigwyr ac arweinwyr meddwl rhyngwladol
- **Mynediad symudol:** mynediad i ddysgu ble bynnag rydych chi

Ymhlith y pynciau e-ddysgu mae: gwaith tîm, effeithiolrwydd proffesiynol a rheoli newid. Mae rhestr lawn ar gael ar wefan Academi Wales.



Ffigwr 10

Academi Wales

Yn ystod 2014-15 rydym wedi darparu hyfforddiant i **fwy** o bobl gyda **llai** o gyllideb a **llai** o staff.

43% o gynnydd yn nifer y mynychwyr

12% o ostyngiad mewn cyllideb

£130 cost gyfartalog fesul mynychydd



O gynnydd yn nifer y mynychwyr ar gyrsiau

45%

Arweinyddiaeth
GIG

46%

Arweinyddiaeth a
Datblygiad Sefydliadol

113%

Gwelliant
Parhaus

10,876

cyfanswm nifer y mynychwyr

95%

cyfradd boddhad cyffredinol

E-Ddysgu

3,231

cyfanswm nifer aelodau y Sianel
Ddysgu



Cyfryngau Cymdeithasol

94,506

o funudau o fideos YouTube a wylwyd, neu
9 wythnos, **2** ddiwrnod, **15** awr a **6** munud



2,180

o negeseuon trydar
newydd

1,617

o luniau newydd wedi'u rhoi
ar Flickr

865

o ddilynwyr Twitter newydd i @academiwales

81%

o gynnydd mewn aelodau LinkedIn

20%

o gynnydd yn yr e-ddysgu a ddefnyddiwyd



100%

graddfa boddhad ar gyfer Ysgol
Aeaf 2015

98%

graddfa boddhad ar gyfer Ysgol Haf
2014



Bwletin Cyfleoedd

1,864

o danysgrifwyr i'r bwletin

28,355

o weithiau yr agorwyd y bwletin yn ystod 2014-15



Campws Llanbedr Pont Steffan, Y Drindod Dewi Sant

AcademiWales



Academi Wales

Adroddiad Blynyddol
2014-15

www.academiwales.org.uk

academiwales@wales.gsi.gov.uk

[@academiwales](https://twitter.com/academiwales)